Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Prawf Meysydd

# Yr Uned Llygaid

---

**Prawf Maes Golwg….**

## Pam mae prawf "meysydd" yn cael ei gynnal?

Mae'r Meddyg wedi gofyn i chi gael prawf "meysydd" i gynorthwyo gyda diagnosis a thriniaeth.

## Beth yw prawf "meysydd"?

Mae'n brawf sy'n mapio eich maes golwg.

## Beth sy'n digwydd yn ystod y prawf?

Rydych chi'n eistedd wrth beiriant ac yn wynebu cromen wedi'i goleuo.

Mae un llygad yn cael ei phrofi ar y tro ac mae pad yn cael ei roi dros y llygad arall.

Mae golau bach yng nghanol y gromen y mae'n rhaid i chi edrych arno’n barhaus.

Gallwch amrantu (blincio) fel arfer yn ystod y prawf. Wrth edrych ar y golau canolog, bydd golau arall o wahanol ddisgleirdeb yn fflachio o amgylch y gromen.

Bob tro y byddwch chi'n gweld fflach o olau arall, rydych chi'n pwyso botwm a bydd y peiriant yn cofnodi hynny ac yn cynhyrchu argraffiad. Yn gyffredinol, ailadroddir y prawf ar gyfer y llygad arall.

## Pa mor hir mae'r prawf yn ei gymryd?

Mae’r prawf yn cymryd tua 15 munud i bob llygad. Gwneir apwyntiad penodol ar gyfer hyn yn ogystal ag apwyntiad clinig.

## A oes angen i mi ddod ag unrhyw beth gyda mi?

Oes, dylech ddod â'ch sbectol ddarllen neu unrhyw sbectol arall gyda chi os oes gennych un.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prawf "meysydd", gofynnwch i aelod

o staff a fydd yn barod i helpu.

**Ble gallaf i gael cyngor pellach?**

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, cysylltwch â: -

Adran Cleifion Allanol Llygaid ar: -
Rhif Ffôn: - 01633 – 656268
Rhwng 8.30am – 5.00 pm

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg/**
**This document is available in Welsh".**